General
Medical
Council

# Crynodeb Blynyddol Sicrhau Ansawdd ar gyfer Ysgol Feddygol Gogledd Cymru

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o sut mae sefydliad yn gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ein safonau fel y nodir yn *Hyrwyddo rhagoriaeth: safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol*. Mae'n amlinellu'r gweithgarwch sicrhau ansawdd a gynhaliwyd gennym a chrynodeb o'n canfyddiadau.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | Ysgol Feddygol Gogledd Cymru |
| **Cyfnod adolygu** | 2024/2025 |

## Trosolwg o'r canfyddiadau

| **Datganiad ar y canfyddiadau cyffredinol** |
|---|
| Mae Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (yr ysgol) yn cynnig cyflwyno rhaglen BMBS pum mlynedd a rhaglen BMBS pedair blynedd Mynediad i Raddedigion (GE) ym Mangor, Gogledd Cymru. Dechreuodd y cwrs pum mlynedd ym mis Medi 2024 a dechreuodd y rhaglen GE pedair blynedd ym mis Awst 2024.<br><br>Ar y cyfan, mae'r gweithgarwch a gynhaliwyd fel rhan o gylch sicrhau ansawdd eleni wedi rhoi digon o sicrwydd i'r panel bod yr ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd ein safonau.<br><br>Rydym yn pennu argymhellion a gofynion lle rydym wedi dod o hyd i feysydd i'w gwella sy'n ymwneud â'n safonau. Yn dilyn gweithgarwch ansawdd eleni, rydym wedi pennu un argymhelliad sy'n ymwneud â chyfleusterau'r ysgol. Mae manylion am hyn ar gael yn adrannau 'Argymhellion' a 'Gofynion' y ddogfen hon.<br><br>Os byddwn, drwy ein prosesau sicrhau ansawdd parhaus, yn canfod risgiau sylweddol ac yn teimlo nad yw'r ysgol yn symud ymlaen yn foddhaol tuag at fodloni ein safonau, efallai y byddwn yn argymell oedi neu ohirio'r rhaglen. Byddwn yn tynnu eich sylw at unrhyw bryderon cyn gynted ag y byddwn yn dod yn ymwybodol ohonynt ac yn gweithio gyda chi i fynd i'r afael â'r rhain. |

The GMC is a charity registered in
England and Wales (1089278)
and Scotland (SC037750)

## Gweithgarwch Ansawdd a gynhaliwyd

| | Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno'r trydydd SAQ | 02/12/2024 | Cafodd y SAQ ei gyflwyno mewn pryd ac roedd yn ymdrin â phob un o'r pum thema *Hyrwyddo rhagoriaeth*. Rhoddodd drosolwg da o sut mae'r ysgol yn bwriadu bodloni ein safonau yn unol â'i hamserlenni arfaethedig.<br>Roedd tîm y GMC, gan gynnwys ein cymdeithion addysg, wedi craffu ar hyn. |
| 2 | Cyflwyno Dogfen | 02/12/2024<br>13/02/2025 | Dogfennau a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r SAQ<br>Dogfennau a gyflwynwyd cyn ymweld â'r ysgol |
| 3 | Ymweliad â'r ysgol | 03/03/2025 | Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar feysydd o'r SAQ yr oedd angen eu hegluro a'u harchwilio ymhellach er mwyn cael sicrwydd ynghylch cynnydd yr ysgol tuag at gyrraedd ein safonau.<br>Roedd y sesiynau a gynhaliwyd gennym yn cynnwys:<br>• yr uwch dîm rheoli (gan gynnwys y tîm ansawdd)<br>• myfyrwyr blwyddyn gyntaf<br>• cwricwlwm ac asesu<br>• addysgwyr academaidd a chlinigol<br>• cynrychiolwyr cynlluniau wrth gefn yr ysgol<br>• staff lleoliadau<br>• cymorth i fyfyrwyr ac addasrwydd i ymarfer<br>Fe wnaethom gwrdd ag amrywiaeth o staff a chynrychiolwyr o Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, Ysgol Feddygol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr Gofal Sylfaenol. Fe wnaethom hefyd gwrdd â grŵp o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf.<br>Ar ddiwedd yr ymweliad, fe wnaethom dynnu sylw ar lafar at feysydd lle roeddem yn gweld cynnydd da yn ogystal â meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Profforma adborth cychwynnol | 06/03/2025 | Rhannwyd dogfen yn amlinellu'r meysydd allweddol a amlygwyd ar lafar ar ddiwedd yr ymweliad â'r ysgol. |
| 5 | Sesiwn Holi ac Ateb i fyfyrwyr yr Ail Flwyddyn | 24/03/2025 | Gan nad oedd myfyrwyr ail flwyddyn y rhaglen GE ar gael ar ddiwrnod yr ymweliad, cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ar wahân â nhw. Gofynnwyd cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar themâu Hyrwyddo Rhagoriaeth. |
| 6 | Fersiwn wedi'i diweddaru o brofforma adborth cychwynnol | 09/04/2025 | Yn ystod y sesiwn holi ac ateb â myfyrwyr yr ail flwyddyn, gwnaethom nodi maes pellach y mae angen canolbwyntio arno. Fe wnaethom ddiwygio'r profforma adborth cychwynnol i adlewyrchu hyn a rhannu'r ddogfen â'r ysgol. |
| 7 | Adborth Ysgrifenedig i'r SAQ | 23/04/2025 | Adborth y GMC fesul llinell mewn ymateb i'r SAQ a gyflwynodd yr ysgol. Mae hwn yn rhoi manylion ein hadolygiad o gynnydd yn erbyn pob un o'n safonau ac yn rhoi manylion gwybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn y cyflwyniad nesaf, gan gynnwys y dystiolaeth ddogfennol ategol ychwanegol sydd ei hangen. |
| 8 | Cyfarfod dros yr haf gydag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol | 30/07/2025 | Rhoddodd yr ysgol gyflwyniad yn manylu ar ei chynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad agored, a'r meysydd ffocws a nodwyd yn dilyn yr ymweliad ym mis Mawrth 2025. Cafodd panel y GMC gyfle hefyd i ofyn cwestiynau archwiliol mewn ymateb i'r cyflwyniad.<br><br>Ar y cyfan, teimlai'r panel fod cyflwyniad yr ysgol yn gynhwysfawr a bod ymatebion yr ysgol i gwestiynau'r panel yn rhoi sicrwydd ychwanegol ynghylch y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at gyrraedd ein safonau. |

**Meysydd sy'n gweithio'n dda**

Rydym yn nodi meysydd lle rydym wedi canfod nid yn unig bod ein safonau'n cael eu bodloni, ond eu bod wedi'u gwreiddio'n dda yn y sefydliad.

| Rhif | Thema | Meysydd sy'n gweithio'n dda |
|---|---|---|
| 1 | Thema 2: Llywodraethu addysgol ac arweinyddiaeth, R2.6, R2.20 | Mae'r ysgol wedi darparu diweddariadau calonogol am gynnydd mewn derbyniadau, capasiti lleoliadau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Thema 3: Cefnogi dysgwyr, R3.2, R3.5 | Roeddem yn falch o glywed am gynlluniau'r ysgol i bwysleisio llais y myfyriwr, llesiant meddyliol a pharodrwydd ar gyfer y dyfodol. |
| 3 | Thema 5: Datblygu a gweithredu cwricwla ac asesiadau, R5.1 | Roeddem yn falch o glywed am gynnydd y llwybr mynediad blwyddyn Porth sy'n helpu i baratoi myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyfer mynediad i'r rhaglen gradd feddygol. |

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt**

| Rhif | Thema | Gofynion |
|---|---|---|
| 1 | Thema 1: Diwylliant ac amgylchedd dysgu, R1.7 | Clywsom fod cynnydd wedi bod o ran recriwtio staff. Fodd bynnag, mae angen i'r ysgol gynnal momentwm gyda recriwtio i sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth. |
| 2 | Thema 5: Datblygu a gweithredu cwricwla ac asesiadau, R5.12 | Rhoddodd yr ysgol sicrwydd y bydd tiwtor anabledd yn yr ysgol yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am addasiadau sy'n ymwneud â safonau cymhwysedd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod unigolion sydd â phrofiad o ymarfer clinigol yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch addasiadau a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion; felly, rydym yn argymell nodi a chadarnhau eu rôl yn glir yn y broses o wneud penderfyniadau. |

**Yr wybodaeth ddiweddaraf ar ofynion ac argymhellion agored**

| Rhif | Gofyniad agored | Diweddariad |
|---|---|---|
| 1 | Thema 1: Diwylliant ac amgylchedd dysgu, R1.19<br><br>O ystyried yr oedi cyn adnewyddu adeilad arfaethedig yr ysgol feddygol, dylai'r ysgol ystyried ehangu ei chynlluniau wrth gefn presennol ar gyfer cyfleusterau, er mwyn sicrhau lle digonol i ddysgu wrth i nifer y myfyrwyr gynyddu.<br><br>[Maes cyfatebol y SAQ: LEC1-07] | Mae gennym bryderon o hyd am gyfleusterau'r ysgol feddygol, sy'n dod o dan gwmpas yr argymhelliad agored. Yn y cyfarfod, rhoddodd yr ysgol sicrwydd y bydd ystafelloedd ychwanegol a fydd ar gael yn adeilad Brigantia yn diwallu'r angen am le i gyflwyno'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.<br>Fodd bynnag, mae'r cynlluniau tymor hir i sicrhau bod lle addas o hyd yn dal i newid, ac mae angen sicrwydd ar frys i sicrhau y bydd lle sy'n addas i'r diben yn barod mewn pryd i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br><br>Cawsom ein calonogi i glywed bod cyfathrebu â myfyrwyr ynghylch newidiadau wedi'i flaenoriaethu. |

| Y camau nesaf |
| --- |
| Mae'r ysgol wedi cael meysydd yn yr adborth SAQ fesul llinell sy'n gofyn am wybodaeth neu ffocws ychwanegol er mwyn i'r ysgol barhau i symud ymlaen. Ar ben hynny, mae'r ddogfen hon wedi tynnu sylw at feysydd allweddol lle mae angen mwy o ffocws i sicrhau cynnydd. Rydym hefyd yn disgwyl i unrhyw ddiweddariadau perthnasol ar draws yr holl eitemau SAQ gael eu darparu. Dylai'r ysgol adolygu'r adborth a ddarperir, a chyflwyno'r SAQ nesaf erbyn **29 Tachwedd 2025** fan bellaf, ochr yn ochr ag unrhyw ddogfennau ategol.<br><br>Pan fyddwn wedi derbyn y SAQ nesaf, byddwn yn gweithio i adolygu hyn a threfnu ein gweithgarwch sicrhau ansawdd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys...<br><br>• Ymweld â'r ysgol i gwrdd â rhanddeiliaid. Byddwn yn cwrdd â myfyrwyr, addysgwyr, cynrychiolwyr Darparwyr Addysg Lleol a'r Uwch Dîm Rheoli o leiaf.<br>• Efallai y byddwn hefyd yn cwrdd â staff eraill yn yr ysgol, er enghraifft, cynrychiolwyr o'r timau cefnogi myfyrwyr ac ansawdd. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymweliad hwn yn cael ei gynnal ddechrau 2026.<br><br>Yn dilyn yr ymweliad hwn, efallai y byddwn yn penderfynu ymgymryd â gweithgarwch ansawdd ychwanegol yn y cylch hwn. Pan fyddwn ni wedi derbyn ac adolygu'r SAQ wedi'i ailgyflwyno ynghyd â'r dogfennau ategol, a chynnal yr ymweliad ddechrau 2026, yn ogystal ag unrhyw weithgareddau ansawdd ychwanegol, byddwn yn rhoi adborth ysgrifenedig i'r ysgol ar y SAQ fesul llinell, yn ogystal â Chrynodeb Blynyddol Sicrhau Ansawdd ar gyfer cylch 2025-26. |

## Ymateb y sefydliad

Mae gan y sefydliad hawl i ymateb i'r AQAS; os yw wedi ymateb, bydd yn cael ei gynnwys isod.

| Ymateb y sefydliad |
| --- |
| |